# Y Pwyllgor Menter a Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 20 Mawrth 2014** |
| Amser: | **09.00 – 15.45** |

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_400000_26_03_2014&t=0&l=cy

## Cofnodion Cryno:

Aelodau'r Cynulliad:

**William Graham AC (Cadeirydd)**
**Mick Antoniw AC**
**Andrew RT Davies AC**
**Keith Davies AC**
**Rhun ap Iorwerth AC**
**Julie James AC**
**Eluned Parrott AC**
**Joyce Watson AC**

Tystion:

**Edwina Hart AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Minister for Economy, Science and Transport**
**Jane Hutt AC, Gweinidog Cyllid**
**Yr Arglwydd Nick Bourne, Collective Enterprise Zone Boards**
**Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi Arbenigol, Llywodraeth Cymru**
**Tracey Burke, Llywodraeth Cymru**
**Jeff Collins, Cyfarwyddwr, Llywodraeth Cymru**
**Elaina Gray, Ewrop Greadigol**
**Natasha Hale, MEDIA Antennae UK**
**Rob Halford, Pennaeth Cynllunio a Strategaeth, WEFO**
**Anne Howells, Prifysgol Aberystwyth**

| | |
|---|---|
| | **Dr. David Llewellyn, Ymgynghorydd annibynnol**<br>**Jane McMillan, Acting Director Programme Management and Finance Division, WEFO**<br>**Dr Liz Mills, Dadansoddwr Polisi Annibynnol**<br>**Damien O'Brien, Cyfarwyddwr, WEFO**<br>**Gethin Scourfield, Fiction Factory Films**<br>**Ruth Sinclair-Jones, British Council** |
| Staff y Pwyllgor: | **Siân Phipps (Clerc)**<br>**Claire Morris (Ail Clerc)**<br>**Olga Lewis (Dirprwy Glerc)**<br>**Gregg Jones (Swyddog)**<br>**Andrew Minnis (Ymchwilydd)**<br>**Ben Stokes (Ymchwilydd)** |

**TRAWSGRIFIAD**
Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan David Rees AC, Dafydd Elis-Thomas AC a Byron Davies AC. Dirprwyodd Andrew RT Davies AC ar ran Byron Davies AC ac ar gyfer eitemau 4 a 5.

## 2 Ymchwiliad i gyfleoedd cyllido yr UE 2014-2020 (sesiwn 5) (09.15-10.00)

2.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Ruth Sinclair-Jones, Cyfarwyddwr Asiantaeth Genedlaethol y DU, Erasmus+, British Council a Natasha Hale, Pennaeth Sectorau, MEDIA Antennae UK.

2.2. Cytunodd y British Council i ddarparu gwybodaeth fanwl am berfformiad sefydliadau o Gymru yn y rhaglen ddysgu gydol oes a'r rhaglenni ieuenctid.

2.3 Cytunodd MEDIA Antennae UK i ddarparu data ar gyfranogiad Cymru yn rhaglen y cyfryngau a'r cymorth a ddarperir ganddynt (digwyddiadau ac ati.)

## 3 Ymchwiliad i gyfleoedd cyllido yr UE 2014-2020 (sesiwn 6) (10.00-10.50)

3.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Elaina Gray, Cyfarwyddwr Datblygu Busnes Canolfan Gelfyddydau Chapter a Gethin Scourfield, Cynhyrchydd, Fiction Factory Films.

## 4 Ardaloedd Menter (11.00-11.45)

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Edwina Hart AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Cefnogwyd y Gweinidog gan Tracey Burke, Cyfarwyddwr Strategaeth. Roedd yr Arglwydd Bourne, Cadeirydd y Byrddau Ardaloedd Menter ar y Cyd hefyd yn bresennol yn y sesiwn.

4.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu:

- nodyn (a diweddariadau rheolaidd yn y dyfodol) am y cynnydd o ran darparu band eang cyflym iawn i ardaloedd menter o dan y rhaglen Cyflymu Cymru;

- nodyn am sut yr eir i'r afael â darparu band eang cyflym iawn (a'r dechnoleg band eang a ddefnyddir) mewn ardaloedd nad ydynt yn addas ar gyfer y rhaglen Cyflymu Cymru;

- y ffigurau o ran nifer y busnesau sy'n rhan o'r arolwg hydredol hirdymor, a'r gyfran o gyfanswm nifer y busnesau mewn ardaloedd menter yr oedd y ffigurau hynny'n eu cynnwys;

- nodyn ynghylch nifer y ceisiadau cymorth ardrethi busnes a gymeradwywyd fesul ardal ac, unwaith y bydd yn barod, gwybodaeth am y gyfran o'r dyraniad o'r gyllideb a ymrwymwyd, sef £20 miliwn, a wariwyd ar gymorth ardrethi busnes mewn gwirionedd, gan adlewyrchu'r niferoedd sy'n manteisio ar y cymorth hwn;

- fel rhan o'r diweddariad rheolaidd, dadansoddiad o'r ffordd y mae ardaloedd menter unigol yn perfformio o ran y swyddi a grëwyd, a gynorthwywyd ac a ddiogelwyd, a dangosyddion perfformiad allweddol perthnasol eraill (i'r graddau y gellir gwneud hynny o gofio ystyriaethau o ran sensitifrwydd masnachol).

## 5 Maes Awyr Caerdydd (11.45-12.30)

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Edwina Hart AC, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru. Cefnogwyd y Gweinidog gan James Price, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, Llywodraeth Cymru a Jeff Collins, Rheolwr Prosiect, Cyfarwyddwr, Llywodraeth Cymru.

5.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu:

- nodyn am y gronfa cysylltedd teithiau awyr rhanbarthol a gyhoeddwyd yn y gyllideb a sut y bydd hynny'n cyd-fynd â'r canllawiau newydd ar gymorth gwladwriaethol;

- nodyn am gymorth gwladwriaethol yng nghyd-destun y twf a ragwelir yn nifer y teithwyr sy'n defnyddio'r maes awyr;

- nodyn am ddefnydd swyddogol Llywodraeth Cymru o faes awyr Caerdydd;

- nodyn am ddefnyddio llain lanio maes awyr Caerdydd gyda'r nos - ardal fenter Sain Tathan.

## 6 Ymchwiliad i gyfleoedd cyllido yr UE 2014-2020 (sesiwn 7) (13.20-14.00)

6.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Anne Howells, Swyddog Datblygu Ewropeaidd, Prifysgol Aberystwyth; Dr Liz Mills, Dadansoddwr Polisi Annibynnol a Dr David Llewellyn, Ymgynghorydd Annibynnol.

## 7 Ymchwiliad i gyfleoedd cyllido yr UE 2014-2020 (14.00-14.45)

7.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid. Cefnogwyd y Gweinidog gan Damien O'Brien, Prif Weithredwr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru; Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi Arbenigol a Jane McMillan, Pennaeth Rheoli'r Rhaglen Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd.

7.2 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu:

- Gwybodaeth ychwanegol am berfformiad Banc Buddsoddi Ewrop yng Nghymru.

## 8 Y wybodaeth ddiweddaraf am Gronfeydd Strwythurol yr UE (14.45-15.30)

8.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid. Cefnogwyd y Gweinidog gan Damien O'Brien, Prif Weithredwr Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru; Jeff Andrews, Cynghorydd Polisi Arbenigol a Rob Halford, Pennaeth Cynllunio a Strategaeth.

## 9 Papurau i'w nodi

9.1 Nododd y Pwyllgor y dogfennau ategol canlynol:

**EBC(4)-08-14 (papur 7)** - Gwybodaeth ychwanegol gan Masnach a Buddsoddi y DU
**EBC(4)-08-14 (papur 8)** - Gwybodaeth ychwanegol gan Masnach a Buddsoddi y DU (Rhaglen Cymorth Datblygu Gallu, Buddsoddi Uniongyrchol Tramor)

**EBC(4)-08-14 (papur 9)** – Gwybodaeth ychwanegol gan Masnach a Buddsoddi y DU (Pwyntiau Data)

Cofnodion y cyfarfod blaenorol.